Anrheg sleifio

On'd ydi pobl yn bathu termau od? Be' mae '*gift creep*' yn ei gyfleu i chi? Y weithred o gropian dan y goeden Dolig i sbecian ar yr anrhegion? Rhywun amheus sy'n dod ag anrhegion i ni? Na, cyfeirio mae'r term at y duedd i brynu anrheg ychwanegol i rywun am eich bod yn ofni nad yw'r un a brynoch yn wreiddiol yn ddigon da. Rywsut, mae anrheg arall yn mynnu sleifio i mewn. A thybed, felly, ai'r term Cymraeg am beth felly ydi 'anrheg sleifio'?

Wn i ddim faint ohonoch sydd wedi cael eich temtio i brynu 'anrheg sleifo' eleni? Ŵyr y bobl sy'n gwneud eu siopa Dolig ar y funud olaf ddim am hynny. Erbyn i'r bobl hynny gyrraedd adref Noswyl Nadolig mae'n rhy hwyr i feddwl am anrheg arall hyd yn oed os byddan nhw'n gwbl anfodlon â'r hyn a brynon nhw. Ond am y bobl sy'n gwneud eu siopa wythnosau'n gynnar, faint ohonyn nhw sy'n penderfynu bod rhaid cael rhywbeth arall i ffrind neu berthynas yn ychwanegol at yr hyn a brynwyd yn barod?

Yn ôl un cwmni a holodd 3,000 o'u cwsmeriaid, mae pobl yn gwario £16.79 ar yr 'anrhegion sleifio' hyn. Roedd 35% ohonynt yn dweud iddynt wneud hynny am eu bod yn siomedig o weld yr anrhegion gwreiddiol wedi eu lapio, a 23% ohonynt yn dweud eu bod yn ofni y byddent yn derbyn anrheg a gostiodd fwy na'r un yr oedden nhw yn ei roi.

Term newydd ydi 'anrheg sleifio' neu 'gift creep'. Pa mor newydd bynnag yw'r term doedd dim arlliw o'r syniad hwn ynghylch y Nadolig cyntaf. Yn nyfodiad Iesu Grist i'r byd cawsom rodd fwyaf Duw. Roedd Duw yn rhoi ei unig Fab yn Waredwr i'r byd. Dyma rodd ei gariad. Dyma rodd na welodd y byd mo'i thebyg na chynt na wedyn. Rhodd a gynlluniwyd yn ofalus oedd hon ac nid rhodd y penderfynwyd arni'n sydyn. Roedd Duw wedi cynllunio'r rhodd hon ers canrifoedd lawer, ac ers mwy na hynny. Oherwydd rhodd a gynlluniwyd cyn llunio'r byd oedd hon; rhodd y gwyddai Duw y byddai angen amdani hyd yn oed cyn iddo greu'r bobl y byddai ei Fab yn dod i'r byd i'w gwaredu. Ac wedi ei haddo, fe roddodd Duw y rhodd i ni. Fe aned Iesu.

Ac unwaith yr oedd Duw wedi rhoi ei Fab doedd dim modd gwella ar y rhodd fawr honno. Doedd dim perygl i Dduw edrych ar y Mab a ddaeth yn blentyn bach a meddwl ei fod mewn unrhyw fodd yn llai na digon. Byddai'n gwbl amhosibl cael rhodd fwy gwerthfawr na Mab Duw a roddwyd yn frawd ac yn achubwr i bechaduriaid.

A mynnwch olwg ar y rhodd ryfeddol hon y Nadolig hwn. Gwelwch y rhodd yn llawenydd y Geni, wedi ei lapio mewn cadachau yn y preseb. Gwelwch y rhodd yng nghywilydd y gwawd, wedi ei lapio mewn clogyn ysgarlad gan y milwyr brwnt. Gwelwch y rhodd yn nwyster yr aberth, wedi ei lapio mewn lliain glân a'i osod mewn bedd. Trwy drugaredd a chariad Duw mae'r Iesu, yn ei ddarostyngiad, yn brydferthach na'r anrheg drutaf a lapiwyd yn ysblennydd.

A gwelwch y rhodd wedi ei dadlapio, yn Grist yr Atgyfodiad a'r Bywyd. Ac eleni eto, yn nathliadau'r Nadolig boed i bawb ohonom dderbyn o'r newydd y rhodd fwyaf a welodd y byd erioed. O'i derbyn, fe sylweddolwn ninnau bod hon yn rhodd sy'n ein llwyr fodloni, ac yn dwyn i ni lawenydd a gobaith mawr.

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 572– Dydd Sul, 22 Rhagfyr 2013

Nadolig Llawen

'Ewch, a chwiliwch yn fanwl am y plentyn'

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso i oedfaon y Sul cyn y Nadolig. Boed bendith Duw ar ein haddoliad trwy'r dydd.

Un oedfa sydd yn Neiniolen heddiw a honno'n oedfa undebol Naw Llith a Charol yn Eglwys Llandinorwig am 3.00 o'r gloch.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Llanberis am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Ac yna am 5.00 o'r gloch cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant. Bydd parti Nadolig yr Ysgol Sul ar ôl yr oedfa.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch.

Cofion

Cymun Bore Nadolig

Cynhelir Oedfa Gymun yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch fore'r Nadolig, Croeso cynnes i chi i ddechrau'r dydd mewn addoliad i'r Duw a ddaeth yn ddyn.

100 oed heddiw

Fel y nodwyd yr wythnos ddiwethaf mae Mr John Morris, Rhiwen Deiniolen yn dathlu ei ben blwydd yn 100 oed heddiw. Dymunwn ben blwydd hapus iawn a phob bendith iddo.

Naw Llith a Charol

Bydd Gwasanaeth Naw Llith a Charol undebol yn Eglwys Llandinorwig am 3.00 o'r gloch heddiw ac estynnir croeso cynnes i bawb i ddathlu Gŵyl y Geni.

Plant Deiniolen

Cynhaliwyd Oedfa Nadolig y Plant yn Neiniolen fore Sul diwethaf. Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth ac yn arbennig i athrawon yr Ysgol Sul a baratôdd y gwasanaeth. Yn ogystal â Drama'r Geni a gyflwynwyd gan y plant cymerwyd rhan hefyd gan ieuenctid yr eglwysi a rhieni'r Ysgol Sul. Cafwyd paned a mins pei ar ôl yr oedfa. DIolch i bawb a gymerodd ran. Catrin Llywelyn oedd yn cyfeilio i'r plant ac i'r carolau cynulleidfaoedd.

Plant Llanberis

ydd Oedfa Nadolig dan arweiniad plant yr Ysgol Sul yn Llanberis am 5.00 o'r gloch heno. Wedi'r oedfa, cynhelir parti Nadolig y plant.

Naw Llith a Charol

Cynhaliwyd Gwasanaeth Naw Llith a Charol undebol yn Eglwys Sant Padarn nos Fawrth ddiwethaf, a diolch i bawb a gymerodd ran.

Wele cawsom

Cafwyd cyflenwad o lyfryn lliwgar newydd a gyhoeddwyd at y Nadolig i'w rhoi'n rhodd i deuluoedd yr Ysgolion Sul a'r eglwysi. Diolch i'r sawl a'u prynodd a'u rhoi i ni.

CICDolig

Cafodd hogiau CIC Llanberis ddiwrnod o hwyl mewn Canolfan Peli Paent ym Mynydd Bodafon, Ynys Môn ddydd Gwener. Roedd hogiau CIC Llanrug yno efo nhw a chafwyd hwyl fawr er gwaetha'r gwynt a'r glaw. Roedd ugain o hogiau yno'n cymryd rhan. Diolch yn fawr i Andrew am drefnu ac i Marc Evans am ddod efo ni i gludo'r hogia yno. Bydd CIC yn ail ddechrau fel arfer yn y flwyddyn newydd.

Gwefan

Mae gwefan Gronyn yn cael ei diweddaru bob wythnos. Ymysg y pethau diweddar ae lluniau o'r Cinio Cawl (ewch i '**Yr Eglwysi'** - ac yna **'Nant Padarn'**.

Os oes gennych luniau o weithgareddau yr eglwysi y gellid eu gosod ar y wefan anfonwch nhw ataf os gwelwch yn dda. Mae'r e-bost i'w weld yn y blwch ar ben y ddalen gyferbyn.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Nadolig: Cynhelir Gwasanaeth Cymun yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.
Dydd Sul, Rhagfyr 29: Ni fydd oedfa.
Dydd Sul, Ionawr 5: Y Gweinidog am 10.00 a 5.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Nadolig: Cynhelir Gwasanaeth Cymun yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.
Dydd Sul, Rhagfyr 29: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams, Y Felinheli ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Willliams, Caernarfon.
Dydd Sul, Ionawr 5: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones, Bethel.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 29: Ni fydd oedfa.
Dydd Sul, Ionawr 5: Ni fydd oedfa.

Dim *Gronyn*

Yn ôl yr arfer, ni chyhoeddir *Gronyn* y Sul nesaf, y Sul wedi'r Nadolig. Bydd y rhifyn nesaf ddydd Sul, Ionawr 5, 2014. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi oll.

Y mis nesaf - Deiniolen

Rhagfyr 22
3.00 p.m. - Gwasanaeth Undebol
Naw Llith a Charol
yn Eglwys Llandinorwig
ar gyfer eglwysi'r pentref

Rhagfyr 29
Dim oedfa

Ionawr 5, 2014
10.00 a.m. a 5.00 p,m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Rhagfyr 22
10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa Nadolig Plant yr Ysgol Sul + Parti Nadolig y plant

Rhagfyr 29
10.00 a.m. - Y Parchg W R Williams
5.00 p,m. - Y Parchg Cath Williams

Ionawr 5, 2014
10.00 a.m. a 5.00 p,m.
- Mr Richard Lloyd Jones